**CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR**

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 1 MAWRTH, 2022**

**Yn NEUADD BENTREF COED-Y-BRYN, COED-Y-BRYN am 7.30 p.m.**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | Cyng. Emyr Jones (cadeirydd) | Cyng. Teifi Evans |
| | Cyng. Mark Davies | Cyng. Ceri Jones |
| | Cyng. Sharon Thomas | Cyng. Robert Jones |

**Ymddiheuriadau** Cyng. Siân Williams a Chyng. Maldwyn Lewis.

**Clerc** Margaret Jones

| **Eitem ar yr Agenda** | | **Gweithredu** | **Gan bwy** | **Erbyn pryd** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gynghorwyr Siân Williams a Maldwyn Lewis. | | |
| 2 | Datgelu Buddiannau | Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau. | | |
| 3 | Cofnodion Cyfarfod Mis Chwefror. | Roedd pob Cynghorydd wedi cael copi o gofnodion cyfarfod mis Chwefror. | | |
| 4. | Materion yn Codi | Ynghylch y trap graean ym Mrongest – roedd Cyng. Teifi Evans wedi archwilio'r trap graean ac roedd wedi cael ei glirio.<br><br>I'w adrodd unwaith eto ar CLIC – SA44 5LH – Coed-y-bryn – arwydd gwartheg ar goll ac SA44 5QH – arwydd tractorau yn croesi ar goll wrth Fferm Glanllyn, Brongest.<br><br>O ran yr Archwiliad, roedd y Clerc wedi anfon e-bost at Mr. Deryck Evans unwaith eto, ac roedd wedi cael ateb awtomataidd a oedd yn nodi na fyddai yn y swyddfa tan 28 Chwefror, ond ni chafwyd ateb cyn y cyfarfod ym mis Mawrth. Roedd y Clerc wedi ceisio cysylltu â Jo Howells yn Archwilio Cymru hefyd, gan adael neges ar beiriant ateb, ond nid oedd y Clerc wedi cael ymateb.<br><br>Bydd y Clerc yn ceisio cysylltu â'r ddau unwaith eto cyn cyfarfod mis Ebrill. | **Clerc** | |
| 5. | Cadarnhau Cofnodion | Cynigiodd Cyng. Mark Davies bod cofnodion mis Chwefror yn gywir, ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng. Teifi Evans. | | |
| 6. | Adroddiad y Cynghorydd Sir | Dim adroddiad gan bod Cyng. Maldwyn Lewis wedi ymddiheuro. | | |

| | |
|---|---|
| 7. Gohebiaeth | Cafwyd llythyr gan Ffederasiwn CFfI Ceredigion yn gofyn am gymorth ariannol. Caiff y mater hwn ei gynnwys ar Agenda cyfarfod mis Ebrill. |
| | Cafwyd llythyr gan Bwyllgor Eisteddfod Llangollen hefyd. Caiff y llythyr hwn ei gynnwys yn y ffeil yn barod ar gyfer ceisiadau grant ym mis Ionawr, 2023. |
| | Cafwyd llythyr o ddiolch gan bwyllgor llyfr Ysgol Coed-y-bryn am y rhodd gan Gyngor Cymuned Troedyraur. |
| 8. Cynllunio | Ni chafwyd unrhyw geisiadau cynllunio erbyn y cyfarfod. |
| 9. Ariannol | **Ymchwiliad Archwilio** – nid oedd y Clerc wedi cael gohebiaeth erbyn cyfarfod mis Mawrth ac eithrio ateb awtomataidd gan Mr. Derryck Evans yn nodi na fyddai yn y swyddfa tan 28 Chwefror, 2022. Roedd y Clerc wedi ceisio cysylltu â Jo Howells yn Archwilio Cymru hefyd ond nid oedd wedi llwyddo i siarad gydag unrhyw un, felly roedd wedi gadael neges ar y peiriant ateb, ond nid oedd unrhyw un wedi dychwelyd galwad y Clerc. Bydd y Clerc yn anfon neges e-bost arall ac yn ffonio eto am ddiweddariad cyn cyfarfod mis Ebrill. **Clerc** |
| | **Llofnodwyr NatWest** – Roedd y Clerc wedi cael llythyr dyddiedig 12 Chwefror gan Fanc NatWest, yn nodi nad oedd y ffurflenni Gorchymyn wedi cael eu llenwi'n gywir. Gan bod y Clerc wedi bod i Gaerfyrddin, roedd hi wedi gwneud ymholiadau gyda banc NatWest ac roedd hi wedi llwyddo i gael ffurflenni yn y banc i'w llenwi â llaw. Roedd y ffurflenni Gorchymyn yn cynnwys lle i ychwanegu 4 llofnodwr newydd a dileu 2 hen lofnodwr. Fel y trafodwyd yn flaenorol, ychwanegir Cyng. Mark Davies a Chyng. Ceri Jones i'r Gorchymyn a thrafodwyd a phenderfynwyd gan bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwn bod lle ar y ffurflenni i ychwanegu 2 lofnodwr arall, ac y dylid cynnwys Cyng. Sharon Thomas a Chyng. Rob Jones ar y Ffurflenni Gorchymyn newydd hefyd. Roedd y Clerc a'r Cynghorwyr uchod wedi llenwi'r ffurflenni Gorchymyn yn ystod y cyfarfod, ac mae'r 4 llofnodwr newydd wedi trefnu ymweld â NatWest yng Nghaerfyrddin gyda'r Ffurflenni Gorchymyn ar ddydd Gwener, 11 Mawrth, gan fynd â'r manylion adnabod perthnasol gyda nhw, yn y gobaith y byddai modd cynnwys y llofnodwyr newydd ar y cyfrif. |
| | **Jiwbilî Platinwm y Frenhines** – holodd Cyng. Teifi Evans a fyddai plant dan 16 oed yn y gymuned yn cael mygiau Jiwbilî. Bydd y Clerc yn holi Cyng. Maldwyn Lewis am y Grant sydd ar gael, a hefyd, sut i ddarganfod faint o blant yn y gymuned sy'n gymwys i gael mwg. Cynigiwyd hyn gan Gyng. Teifi Evans, eiliwyd y cynnig gan Gyng. Mark Davies a chaiff y mater ei gynnwys ar Agenda cyfarfod mis Ebrill. |

**Taliadau** CThEM - £43.60 (PAYE)
Cyflog y Clerc - £173.80
Ashmole & Co., - £78.00 (Cyflogres)
Eglwys Sant Michael Troedyraur - £150.00
Ambiwlans Awyr Cymru - £150.00

**Diffibrilwyr** – Cafwyd dyfynbris am y swm o £3,933.60c gan Calon Heart am 3 Diffibriliwr a 3 cabinet heb eu gwresogi, a oedd yn cynnwys grant o £300 yr un ar gyfer pob Diffibriliwr. Roedd pob Cynghorydd yn cytuno y dylid prynu'r rhain ar unwaith. Bydd y Clerc yn trefnu'r archeb ac yn trefnu bod taliad yn cael ei wneud yn unol â'r anfoneb a oedd yn cynnwys y dyfynbris.

**Clerc**

Y Clerc i drefnu gyda Chynghorwyr Roger Davies a Maldwyn Lewis bod y sieciau uchod yn cael eu llofnodi. **Clerc**

10. Materion Ardal

**Cynghorydd Newydd** – gosodir hysbyseb yn yr holl flychau cymunedol yn nodi bod lle gwag am Gynghorydd newydd i gynrychioli ardal Ffostrasol. Y dyddiad cau i ymgeiswyr – 25 Mawrth, 2022.

**Clerc**

13. Cyfarfod Nesaf.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar NOS FAWRTH, 5 EBRILL am 7.30 p.m. yn Neuadd Bentref Rhydlewis.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, tynnodd y Cadeirydd y cyfarfod at ei derfyn am 9.40 p.m.

14. Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf

Ymddiheuriadau
Datgelu Buddiannau
Cofnodion y Cyfarfod diwethaf
Cadarnhau Cofnodion
Adroddiad y Cynghorydd Sir
Gohebiaeth
Cynllunio
Asesiad Risg
Diweddariad am y cyfansoddiad
Hyfforddiant/Cyrsiau
Cyllid – Archwiliad
    Diweddariad am y Gorchymyn/Llofnodwyr
    Taliadau
    Mygiau Jiwbilî Platinwm y Frenhines
Materion Ardal
Dyddiad y cyfarfod nesaf

15. Cyfarfod Nesaf

**NOS FAWRTH, 5 EBRILL, 2022** am **7.30 p.m.** yn Neuadd Bentref Rhydlewis